Mae'r Adroddiad Blynyddol 2007[1] yn ystyried sawl agwedd ar Iechyd a Diogelwch yn y Brifysgol a lle bo'n bosib yn eu cymharu ag ystadegau, safonau ac arferion cenedlaethol.

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Maeôr Strategaeth Iechyd a Diogelwch yn amlinelluôr weledigaeth a'r ffactorau a fydd yn ysgogiôr gwaith o reoli, cydymffurfio a monitro iechyd a diogelwch ac maeôn ôiechydô yn yr agenda ehangach.

weithreduôr strategaeth hon,
chafwyd gwelliant pellach ym mhroffil staffioôr adran iechyd a diogelwch ganolog pan Newidiwyd enwôr
thau Iechyd a Diogelwchô er mwyn adlewyrchuôn well ei

ôr

gweithiwr/blwyddyn) syôn cyfateb i ryw 2.1%.

cydweithioôn agos er mwyn cefnogi'r rhai hynny syôn dioddef o salwch tymor hir i ddychwelyd iôr gwaith ac osgoi absenoldebau sy'n fwy na 6 mis.

- T©n mewn llety ûteuluol û a achosodd ddifrod difrifol mewn cegin.
-
-

pethau ûn newid yn 2008, a rhagwelir cynnydd sylweddol mewn hyfforddiant staff, yn enwedig wrth iûr strategaeth newydd ddod i rym.

2. RHAGARWEINIAD

Rhennir yr adroddiad blynyddol yn adroddiadau cyfansoddol sy'n cynnig sylwadau ar

3. ADRODDIAD Y GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH

Y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yw prif ddarparwr cyngor Iechyd a Diogelwch addas[6] i'r Brifysgol ac mae'n adran

Roedd yn eglur hefyd mai hyrwyddo a chefnogi iechyd da oedd egwyddor arweiniol y strategaeth newydd, ac mae'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol newydd wedi gwneud llawer o waith i yrru'r agenda iechyd a chodi proffil iechyd ymysg y staff. Mae'r newidiadau'n cynnwys:

- Symud i fwrdd o'r hen system gyfeirio;
- Cyflwyno profion gofal iechyd;
- Cynlluniau gofal iechyd i helpu pobl ag iechyd gwael i ddychwelyd i'r gwaith;
- Hyfforddi staff i ddefnyddio diffibrilwyr;
- Gwella'r system rheoli gofal iechyd merched beichiog a mamau newydd;
- Cyflwyno cynllun „Ymarfer ar gyfer Bywyd".

Bras Gynllun Gwaith 2008

Yn y flwyddyn newydd cafodd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y cyfle i ddechrau datblygu a hyrwyddo'r „strategaeth a'r gyrwyr newydd" ac i wella'r ffordd yr oedd yn cyflenwi gwasanaethau. I gefnogi hyn mae'r gwaith canlynol wedi dechrau ac/neu wedi cael ei gwblhau.

- „Her Colli Pwysau" a gychwynnwyd yn y flwyddyn newydd i annog staff i wella eu ffitrwydd ac i godi arian i Hosbis Plant Tŷ Gobaith;
- Creu Llyfryn Cofnod Iechyd i ategu Profion Iechyd staff;
- Sefydlu ymarferion hyfforddi gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub i wella cysylltiadau a gwella dealltwriaeth y Brifysgol o sut i drin sefyllfaoedd argyfwng;
- Cyflwyno gwefan ac adnodd gwefan newydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch;
- Datblygu system dogfennau newydd gyda'r bwriad o greu Safonau Polisi a Thaflenni Gwybodaeth newydd i ddisodli'r polisïau a'r dogfennau arweiniad presennol sy'n llawn jargon;
- Adnabod angen a chreu cyrsiau hyfforddi newydd mewnol (lle bo'n bosib) e.e. Cynnal a Chadw Cerbydau, Profion PAT a Diogelwch Cerbydau, Diogelwch Labordai, Diogelwch Nwy Cywasgedig, Sesiynau Briffio Iechyd a Diogelwch, hyfforddiant i Gydlynwyr Iechyd a Diogelwch, etc.;
- Trefnu Gweithdai rheolaidd ar gyfer Cydlynwyr Iechyd a Diogelwch (cynllunnir y cyntaf ar gyfer Mehefin 12) i roi gwell cefnogaeth ac arweiniad i'r aelodau staff hynny sydd â dyletswyddau iechyd a diogelwch llawn amser neu ran amser;
- Profion Gofal Iechyd ychwanegol i staff;

rhanbarth.

Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH)

Mae cyfnod tair blynedd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch, Lisa Fowlie fel aelod o Dîm Llywyddol y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH) yn dod i ben fis Tachwedd 2008.

Mae'r swydd wedi rhoi cyfle gwych iddi i gymryd rhan weithredol yn y meysydd canlynol ac i arwain arnynt:

- *Llywodraeth Ganolog*: Ailwampio system Lywodraethu'r Sefydliad a sefydlu Bwrdd Ymddiriedolwyr gan gynnwys newid trefn yr Uwch Dîm Rheoli a Chyfarwyddiaethau cysylltiedig. Fel rhan o hyn mae'r Gyfarwyddiaeth wedi cytuno ar y Strategaeth Gorfforaethol newydd a'r dangosyddion perfformiad allweddol.

- *Aelodaeth*: Mae canghennau a grwpiau yn gweithio ar gynyddu a chryfhau nifer yr aelodau (dros 32,000 mewn dros 80 o wledydd), cysylltiadau a strategaethau cyfathrebu. Buont hefyd yn hyrwyddo cydnabod statws Siartredig unigol i aelodau a newidiadau cysylltiedig yn strwythur yr aelodaeth, yn enwedig cyflwyno datblygiad proffesiynol cychwynnol/ parhaus.

- *Pwyllgorau a chyfarfodydd a Gweithgorau:* Buwyd yn gweithio gydag IOSH a chyda chyrff proffesiynol eraill i ddatblygu themâu, ymgyrchoedd a gweithio mewn partneriaeth. Rhoddwyd sylwadau hefyd ar ddogfennau ymgynghorol ac ar y newid yn y strwythurau a'r strategaethau trefniadol o ganlyniad i'r uno diweddar rhwng y Comisiwn Iechyd a Diogelwch/ y Gweithgor Iechyd a Diogelwch. Ar hyn o bryd mae eu gwaith yn cynnwys datblygu strategaeth Iechyd a Diogelwch newydd a phennu dangosyddion perfformiad allweddol.

- *Cynadleddau, Ymgyrchoedd a'r Cyfryngau:* Wedi bod yn datblygu ac yn cyflwyno pynciau a materion allweddol sy'n ymwneud â'r byd ehangach. Dyma'r rhai cyfredol: „Young Persons", „Get the Best", „Back to Health, Back to Work" and „Taking the Myth". Cynrychiolir y mentrau hyn trwy gyflwyniadau, teledu, radio, cyhoeddiadau allweddol, Cyfryngau Cenedlaethol a gweithgareddau lobio gyda'r Llywodraeth a phleidiau gwleidyddol. Mae hyn yn cynnwys hefyd adolygiad o'r brand IOSH a strategaethau cyfathrebu a rhyngwladol.

- *Digwyddiadau cymdeithasol a .83 68.94 eWBT F2 11.04 1 0 0 1 51.7 329.5 Tm 0 g0 G -0.0*

Brifysgol, Colegau, Adrannau Gwasanaeth ac Undeb y Myfyrwyr.

Cyfarfu'r Pwyllgor ar ddau achlysur y llynedd a bu'n ystyried y Strategaeth Iechyd yn benodol a Diogelwch ac yn argymell iddo gael ei gymeradwyo. Gwelwyd hefyd sefydlu Is-Bwyllgor newydd i oruchwylio iechyd, diogelwch a lles myfyrwyr; mae'r Is-Bwyllgor hwn o dan gadeiryddiaeth Dr Ioan Ap Dewi, y Cofrestrydd Academaidd.

Mae'r Is-Bwyllgorau gweithredol fel a ganlyn:

- Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Ymbelydredd
- Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Cemegol a Biolegol
- Is-Bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Myfyrwyr

Rhagwelir y bydd yr „Is-Bwyllgor Iechyd a Diogelwch Staff" yn dechrau ar ei waith ar ôl dirwyn i ben y „Grŵp Tasg a Gorffen" cysylltiedig sy'n ystyried ar hyn o bryd ddatblygu menter amgylchedd gwaith positif.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd hefyd gan y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch ac mae wedi derbyn ac wedi ystyried adroddiadau manylach ar y canlynol yn benodol:

- Y Risg o „Ddisgyn o Le Uchel"
- Y Risgiau o „Wydr" ar draws yr ystad
- Yr Agenda Iechyd newydd

5. GR___ TASG GWEITHREDU DIOGELWCH

Y Grŵp Tasg Gweithredu Diogelwch yw'r corff „rheoli" ar gyfer iechyd a diogelwch yn y Brifysgol. Mae hefyd yn goruchwylio'n gyffredinol waith y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn ogystal â'r perfformiad iechyd a diogelwch cyffredinol a chyswllt â risg.

Mae Ysgrifennydd a Chofrestrydd y Brifysgol, Dr David M. Roberts, yn parhau i gadeirio'r Grŵp Tasg, sy'n cynnwys fel aelodau Gyfarwyddwyr Adnoddau Dynol ac Ystadau a Chyfleusterau, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, y Dirprwy Gofrestrydd a Phennaeth y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.

Yn fwyaf arwyddocaol, yn ystod 2007 mae'r Grŵp Tasg wedi goruchwylio datblygiad yr Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a Strategaeth Iechyd a Diogelwch y Brifysgol.

priodol y dylent eu cymryd. Cynghorir pawb a welir i gadw eu cofnodi gwiriad iechyd a'i ddefnyddio fel pwynt cyfeirio i fonitro newidiadau er gwell neu fel arall yn y blynyddoedd i ddod.

Canlyniadau
Mae canlyniadau pob unigolyn yn gyfrinachol ac yn cynnwys sgôr straen personol. Mae'r wybodaeth ganlynol yn manylu ar broffil iechyd cyffredinol y bobl a welwyd.

PROFFIL OEDRAN

<20oed	20-29oed	30-39oed	40-49oed	50-59oed	>60oed
4	19	23	21	16	12

MYNEGAI MAS Y CORFF (BMI)
Credir mai sgôr BMI o 18-24 sy'n cynrychioli pwysau iach. Mae sgôr sydd ychydig uwch na hynny (e.e. 25-29) yn gallu adlewyrchu mas cyhyrau ambell waith, ond yn y mwyafrif o achosion dim ond arwydd bod rhywun yn rhy drwm ydyw. Gall sgoriau dros 30 fod yn arwydd o broblemau iechyd gan gynnwys diabetes, problemau symud oherwydd straen ar y cymalau yn y cluniau a'r pen-gliniau sy'n dwyn pwysau. Mae sgoriau uchel yn arwydd hefyd bod mwy o straen ar y galon a'r ysgyfaint pan fydd yr unigolyn yn gwneud ymarfer corff dwys (Siart 1).

I gefnogi iechyd a phwysau, cynlluniwyd her colli pwysau 10 wythnos ar y cyd â chanolfan Chwaraeon Maes Glas. Ymunodd 28 o bobl i gyd. Y canlyniad oedd colli 200 pwys a rhodd o £1000 o nawdd i hosbis Plant Tŷ Gobaith.

Siart 1 Sgor Mynegai Mas y Corff



PWYSEDD GWAED
Dyma bwysedd y gwaed sy'n cylchredeg yn y corff pan fydd y galon yn curo. Yn ôl y Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth Iechyd a Chlinigol (2006), dylai pwysedd gwaed fod o fewn yr ystod 120/70 a 140/90.

Diffinnir pwysedd gwaed uchel fel lefel sy'n gyson uwch na 140/90 mmHg. Ar y lefel hon mae cyngor dull o fyw yn llwyddo'n aml i atal pwysedd gwaed rhag codi ymhellach ac yn ei ostwng yn aml i lefel dderbyniol.

Cynghorwyd y rhai hynny a gafodd ganlyniadau uwchlaw 160/100 i geisio gofal meddygol gan y eu Meddyg teulu eu hun. Mae canlyniadau ar y lefel hon ac yn uwch yn codi'r risg o gyflyrau megis trawiad ar y galon a strôc. Yn aml nid oes symptomau gan bobl gyda phwysedd gwaed uchel ac fel rheol nid yw pobl yn darganfod bod ganddynt bwysedd gwaed uchel nes iddynt gael prawf iechyd neu pan fydd problemau go iawn wedi digwydd.

Chart 4: Yfed Alcohol



Siart 6: Nifer ysmygwyr



ASESIAD RISG CORONAIDD DUNDEE

Mae sawl rheswm dros ddatblygu clefyd coronaidd y galon. Mae'r rhain

defnyddio. Eisoes hyfforddwyd staff sy"n gweithio yng Nghanolfan Chwaraeon Maes Glas (ers hynny maent wedi llwyddo i adfywio rhywun trwy ddefnyddio"r diffibrilwyr)ac yn awr mae staff diogelwch yn cael eu hyfforddi.

7. ADRODDIAD AR SALWCH STAFF

Mae'r canlynol yn rhoi gwybodaeth am absenoldeb „salwch" a adroddwyd gan staff ac mae'r pwyslais ar ddata ystadegol ar gyfer absenoldebau „gyda thystysgrif feddygol" gan fod mwy o gywirdeb ystadegol yn perthyn i ddata o'r fath.

Mae'r adroddiad yn ymdrin â chyfnod yn y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch lle'r oedd ansawdd a darpariaeth Iechyd Galwedigaethol yn amrywio hyd at benodi'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol presennol ym mis Gorffennaf 2007.

Ystadegau Pwysicaf

Darperir y data pwysicaf ar gyfraddau Absenoldeb Salwch gan Adnoddau Dynol a dylid ei ystyried yn **ddangosydd** yn unig ar hyn o bryd.
Mae'n amlwg o arfarnu data 2007 ei fod yn cynnwys anghysonderau. Mae'r anghysonderau hyn yn debygol o gael effaith andwyol ar y gwerthoedd a nodir yn yr adran hon o'r Adroddiad Blynyddol. Bydd y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch ac Adnoddau Dynol yn mynd i'r afael â chywirdeb y data er mwyn sicrhau bod Adroddiad 2008 yn darparu gwerth a chywirdeb go iawn.

Mae cyfradd Absenoldeb Salwch Prifysgol Bangor[8] fesul gweithiwr/blwyddyn yn 2006/07 yn 6.2 diwrnod, sy'n cyfateb i golli 2.1% o amser.

Mae cyfradd absenoldeb salwch y Brifysgol yn cymharu â'r cyfraddau cenedlaethol fel a ganlyn:

* *Darperir data gan systemau Meincnodi AD–*


Hyd Absenoldebau Salwch Hir Dymor Ion-Rhag 2007
Nifer Cyfnodau
40
30
20
10
0
34
15
8
7
6
3
3
2
<1
1
2
3
4
5
6
>6
Misoedd oddi ar y gwaith

8. ADRODDIAD DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

O fewn yr Adran hon darperir ystadegau blynyddol ar gyfer Adroddiadau Damweiniau a dderbynnir gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn 2007.

Yn y cyd-destun hwn diffinnir 'damwain' fel digwyddiad heb ei gynllunio neu annisgwyl a arweiniodd at niwed personol o unrhyw fath[9].

DAMWEINIAU A DIGWYDDIADAU

Cyffredinol

Roedd cyfanswm y damweiniau a'r digwyddiadau a adroddwyd i'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, sef 72, yn llai nag yn 2006.

Cyfanswm Damweiniau /Digwyddiadau ym Mhrifysgol Bangor 1998 -

- Llithrodd aelod o staff ar risiau mewnol – *y canlyniad oedd 3 diwrnod oddi ar y gwaith.*
- Tynnodd technegydd rywbeth yn ei gefn wrth symud dodrefn – y canlyniad oedd 3 diwrnod oddi ar y gwaith.

Achosion damweiniau

Er mwyn deall pam mae damweiniau'n digwydd ac i ganfod tueddiadau mae'n bwysig edrych ar achosion. Er enghraifft, ym Mhrifysgol Bangor roedd tua 41% o ddamweiniau oherwydd bod pobl wedi llithro, baglu neu ddisgyn ar lawr gwastad neu ar risiau. Mae hyn yn cymharu'n wael â chyfartaledd o 33% yn y DU (yn 2004) ac mae'n gynnydd o 10% ar ddigwyddiadau tebygol yn 2006.



Mae'n amlwg bod angen gweithredu er mwyn delio â nifer yr achosion o bobl yn llithro, yn

9. ADRODDIAD AM DANAU A UD Â LARYMAU TÂN

Cyflwynir adroddiad blynyddol y Brifysgol am danau ac achosion o seinio larymau tân fel cofnod cymharol dros nifer o flynyddoedd ac yn unol â meini prawf a osodwyd gan Gymdeithas Iechyd a Diogelwch y Prifysgolion (USHA).

Mae'r ystadegau tân cenedlaethol (USHA) ar gyfer 2007 wedi eu seilio ar y digwyddiadau a adroddwyd gan 94 o /02

Cymhariaeth genedlaethol

Oherwydd gofynion adrodd USHA, mae cymariaethau Ystadegol Cenedlaethol yn bosib dim ond ar gyfer Llety Preswyl a reolir gan y Brifysgol.

Er mwyn darparu cymhariaeth barod ar gyfer y Sector, cynhyrchir ystadegau tân ar gyfer Llety Preswyl ym Mangor fesul 1000 o lofftydd astudio[14].



Er bod hwn ychydig yn uwch nag yn 2006, mae'r gyfradd seinio larymau tân yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sydd wedi gweld cynnydd bob blwyddyn ers 2001.

Mae'n bwysig bod Bangor yn gwrthdroi'r duedd ar i fyny er mwyn sicrhau parhad ewyllys da a pherthynas gytûn gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub ac er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn dal i fod ar eu gwyliadwriaeth pan fydd larymau tân yn cael eu seinio.

Tanau go iawn

Tanau fesul 1,000 o Lofftydd Astudio



	2000	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007
Prifysgol Bangor	2.8	5.4	3.2	1.9	3.29	0.94	0.93	0.93
Sector	2.92	2.87	2.9	2.45	2.88	3.92	2.55	2.74

[14] Roedd tua 2,050 o lofftydd astudio yn cael eu defnyddio/ar gael ym Mhrifysgol Bangor yn 2007.

Mae'r ystadegau „Tân" go iawn yn rhy isel i roi llawer o bwyslais arnynt. Nodir serch hynny bod disgwyl na ddylai fod dim tanau yn y Brifysgol.

Cyfraddau Seinio

Mae tua 3,600 o larymau tân a mwg yn y Neuaddau Preswyl ym Mangor. Wrth gymharu'r nifer hon â nifer yr achosion o seinio larwm tân pan nad oes tân ceir cymhareb o 3.9 o „achosion ffug" fesul 100 o larymau. Mae hyn yn llawer is na chyfartaledd y sector genedlaethol sef 5.3 o achosion fesul 100 o larymau.

Gwybodaeth arall

Cafwyd pedwar tân go iawn ym Mhrifysgol Bangor yn 2007; dau mewn llety preswyl a dau

fewn y cyfanswm hwn cafwyd cynnydd o 11% (i 32,200) o achosion o seinio rhybudd ffug yn faleisus a chynnydd bychan (i 238,700) o achosion o seinio rhybudd ffug oherwydd yr offer.

10. ADRODDIAD HYFFORDDIANT STAFF

Cyffredinol

Mae'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch wedi darparu nifer o gyrsiau, rhai ar yr amserlen a rhai ychwanegol i staff y Brifysgol ac i'w Hysgolion a'i Hadrannau yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau, sesiynau hyfforddi a chyfarfodydd briffio arbennig a drefnir yn ganolog yn cael eu trefnu gan y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch ac/neu arbenigwyr allanol fel y bo'n briodol.

Datblygiadau

Fel y rhagwelwyd yn ystod 2007 cynigiwyd llai o gyrsiau hyfforddi'n ganolog (yn bennaf oherwydd lefelau staffio is dros dro o fewn y Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch).

Roedd cyrsiau a gyflwynwyd „ar gais" ac a deilwriwyd i anghenion Colegau, Ysgolion ac Adrannau yn dal i ddenu pobl yn fwy effeithiol na threfnu rhaglen flynyddol o gyrsiau.

Crynodeb ac Ystadegau

Ar y cyfan teimlir bod nifer dda yn mynychu cyrsiau iechyd a diogelwch allweddol ar hyn o bryd ond dylid nodi nad oes dim llwybr archwilio addas ar hyn o bryd i sicrhau bod pob aelod staff newydd yn mynychu'r ddau gwrs gorfodol; Cynefino Staff a Defnyddwyr Offer Sgrin Arddangos. (O 2008 mae'r ddau gwrs hyn wedi cael eu cwtogi a'u cyfuno gyda'i gilydd o fewn y prif ddiwrnod cynefino staff newydd a drefnwyd gan AD).

Yn sgil y newid yn strwythur y Brifysgol mae adolygiad ar y gweill o swyddogaeth, gofynion hyfforddiant a chyfarwyddyd Cydlynwyr Diogelwch Colegau/Ysgolion/Adrannau. Cynhelir y cyfarfod cyntaf ym mis Mehefin.

Yn ystod y flwyddyn mynychodd dros 548 aelod staff sesiynau Hyfforddi Iechyd a Diogelwch. Mae cyrsiau Hyfforddi Staff a ddarperir gan/trwy'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch yn cynnwys:

- Aeth 191 aelod staff i sesiynau Cynefino Iechyd a Diogelwch ar gyfer gweithwyr newydd.
- Mynychodd 187 o staff gyrsiau ar gyfer defnyddwyr cyfrifiaduron.
- Mynychodd 35 o staff gyrsiau Asesu Risg pwrpasol
- Mynychodd 39 o staff gyrsiau Trafod â Llaw
- Cafodd 12 o staff eu hyfforddi i ddefnyddio'r Diffibrilwr (AED)
- Bu 11 o staff yn bresennol yn y cwrs Cymorth Cyntaf 4 diwrnod, a bu 29 yn